


Cynllun Cydraddoldeb 2016-2020

Be ydi Cynllun Cydraddoldeb?



Mae Cyngor Gwynedd isio gwneud yn siŵr eu bod nhw yn trin pawb yn deg.

Mae'r Cynllun yn dweud be mae Cyngor Gwynedd yn meddwl gwneud dros y 4 blwyddyn nesa i fod yn fwy teg.

Wrth wneud pethau'n fwy teg mae'n rhaid i'r Cyngor feddwl am be mae rhai grwpiau o bobl angen


Pa grwpiau o bobl mae'n rhaid i'r Cyngor feddwl amdany'n nhw?

Mae'n rhaid i'r Cyngor feddwl am y grwpiau yma:

- Pobl o bob oed

- Merched a Dynion
- Pobl anabl
- Pobl o hil wahanol

Pobl sydd hefo lliw croen gwahanol, neu sy'n dod o lefydd gwahanol




- Pobl sydd hefo crefydd neu bobl heb grefydd
- Pobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu hetro

Mae dynion hoyw yn hoffi dynion arall
 Mae merched lesbiaidd yn hoffi merched arall
 Mae pobl deurywiol yn hoffi merched a dynion
 Mae dynion hetro yn hoffi merched
 Mae merched hetro yn hoffi dynion.

- Pobl sy wedi newid eu rhyw neu sy yn ganol newid eu rhyw
- Merched sydd am gael babi neu newydd gael babi

- Pobl sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil

Mae partneriaeth sifil yn debyg i briodas.



Sut mae Cyngor Gwynedd am wneud pethau'n fwy teg i'r bobl yma?


Mae Cyngor Gwynedd wedi meddwl am 4 peth mae nhw am ei wneud i fod yn fwy teg. Dyma nhw:

1. Gwrando ar bobl er mwyn gwneud gwasanaethau yn well



Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn gwrando ar bobl o wahanol grwpiau cyn newid rhai pethau. Ond mae'r Cyngor isio gwneud yn siŵr fod nhw yn gwrando digon.

Mae nhw wedi meddwl gwneud hyn achos fod pobl wedi dweud wrthyn nhw fod angen i Cyngor Gwynedd wrando yn well.



2. Gwneud gwell asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn ffordd o wneud yn siŵr fod Cyngor Gwynedd yn meddwl am beth mae'r gwahanol grwpiau ei angen. Mae'n ffordd o wneud yn siŵr fod pawb yn cael eu trin yn deg.

Mae Cyngor Gwynedd wedi edrych ar yr asesiadau effaith mae nhw'n gwneud yn barod. Mae nhw'n meddwl y galla nhw wneud asesiadau effaith gwell.

3. Gwneud yn siŵr fod gwahanol fathau o bobl yn gallu trio bod yn Gynghorwyr



Cynghorwyr ydi'r bobl sy'n gyfrifol am y Cyngor. Mae nhw'n cael eu dewis gan bobl lleol.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau gweld os oes na rywbeth yn stopio rhai pobl, fel pobl ifanc neu bobl anabl, rhag trio bod yn Gyngorydd.

4. Gwneud yn siŵr fod dim byd yn stopio pobl rhag cael swyddi gwell yn Cyngor Gwynedd



Mae Cyngor Gwynedd wedi gwneud yn siŵr fod pawb yn cael eu talu'n deg am y gwaith mae nhw'n wneud. Ond ella fod na rai grwpiau o bobl sydd ddim yn trio am swyddi gwell yn y Cyngor. Mae'r Cyngor isio gweld os oes ydi hynny yn wir. Os ydi o'n wir mae nhw eisiau gwneud rhywbeth am hynny.

Os ydw i isio gwybod mwy, beth sydd isio i mi wneud?



- Ffonio Delyth ar 01286 679708



- E-bostio ar cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk
- Sgwennu at

Delyth Williams,
Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Corfforaethol
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH